

## Y Pwyllgor Diwylliant CC-14-02(min)

### COFNODION

**Dyddiad:** Dydd Iau 3 Gorffennaf 2002

**Amser:** 9.30am-12.15pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Y Cynulliad Cenedlaethol

### Presennol:

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

**Ymddiheuriadau:** Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd), Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

### Eilyddion

Elin Jones (Plaid Cymru, Ceredigion)

### Swyddogion

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Margaret Evans (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)

Russell Thomas (Is-adran Diwylliant a'r Gymraeg)

Prys Davies (Is-adran Diwylliant a'r Gymraeg)

### **Datganiadau o fuddiant:**

- Rhodri Glyn Thomas – aelod o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.

### **Eitem 1: Trafodaeth ar Flaenoriaethau'r Gyllideb – Papur: CC-12-02(p2)**

Dywedodd y Cadeirydd fod angen i'r Pwyllgor gwblhau ei ystyriaeth o flaenoriaethau'r gyllideb fel y gallai ef ymateb i'r Gweinidog erbyn y dyddiad a bennwyd, sef 5 Gorffennaf.

Wrth ymateb i gwestiynau gan aelodau, dywedodd y Gweinidog:

- Mai'r unig ymrwymiad i brosiect Prifddinas Diwylliant Caerdydd oedd cyllid cyfatebol ar gyfer cost y cais.
- Gallai'r Cynghorau Celfyddydau a Chwaraeon ddarparu dadansoddiad rhanbarthol o wariant. Ni chytunai'r Gweinidog fod diffyg cyllido ar y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd, a rhoddodd enghreifftiau trwy gyfeirio at adnoddau ar gyfer y Gymraeg, Cymru Greadigol, sy'n cynnwys ymrwymadau rhanbarthol, y Strategaeth Ddigwyddiadau a Resource.
- Byddai'n cydweithio'n agos â'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd ar y strategaeth ddigwyddiadau oherwydd y diddordeb economaidd cryf.
- Byddai'r Sefydliad Theatr Ryngwladol yn cael ei leoli ym Mhrifysgol Morgannwg ym Mhontypridd.

O ran blaenoriaethau'r gyllideb, roedd yr aelodau'n cefnogi'r rhai a nodwyd ym mharagraff 6.1 y papur. Roeddent hefyd yn dymuno gweld blaenoriaeth yn cael ei rhoi i:

- Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, gyda chymorth arbennig ar gyfer ei sylfaen wyddonol.
- Cymorthdal diwylliannol i helpu i leihau cost tâl mynediad i ysgolion sy'n ymweld â mentrau preifat.
- Mwy o gyfleoedd mewn diwylliant a chymorth i gymunedau, yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig, ac i bobl ifanc.
- Mwy o gydweithredu ag Awdurdodau Lleol.
- Cymorth tuag at ddarparu prosiectau coffa cymunedol.
- Dosbarthu adnoddau'n gyfartal rhwng rhanbarthau Cymru.

Awgrymwyd hefyd y dylai'r Gweinidog ymchwilio ymhellach gyda'i chyd-Weinidogion i

bosibilrwydd sefydlu cymhorthdal diwylliannol. Cynigiwyd hefyd y dylid rhoi ystyriaeth i ganoli gweithgareddau'r pum dosbarthwr Loteri yn un ffynhonnell.

Yn olaf, dymunai'r Aelodau gofnodi eu gwerthfawrogiad o'r adnoddau ychwanegol yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi eu darparu ar gyfer y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru.

## **Eitem 2: Trafodaeth ar y Flaenraglen Waith**

Wrth gyflwyno'r eitem hon, dywedodd y Cadeirydd mai dim ond pum cyfarfod a bennwyd ar gyfer y tymor nesaf; dylai'r Aelodau felly ystyried eitemau agenda hyd at Fai 2003. Fe'u hatgoffodd fod y Pwyllgor eisoes wedi cytuno i:

- Adolygiad o chwaraeon.
- Trafodaeth ag Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru ynghylch eu cynlluniau ar gyfer arddangos celfyddyd.
- Cyfarfod â'r Cyngor Amgueddfeydd a oedd wedi ei ohirio er mwyn cael trafod y Mesur Cyfathrebu.
- Cyfarfod eto â Chyngor Celfyddydau Cymru ac yn arbennig ystyried dosbarthiad rhanbarthol cyllid.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen i'r Pwyllgor ystyried hefyd sut y dylai gydlyn gwaith y Pwyllgorau eraill ar hyrwyddo'r argymhellion yn 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol'. Bu peth trafod ynghylch pryd y dylai'r Pwyllgor ystyried hyn nesaf. Awgrymwyd y byddai cyfarfod cyntaf y tymor newydd yn rhy fuan i'r Gweinidog roi adroddiad ar gynnydd â'i hymateb i'r argymhellion. Teimlai'r Pwyllgor, fodd bynnag, nad oedd reswm dros oedi cyn trafod â Chadeiryddion Pwyllgorau eraill, y rhoddwyd cyfrifoldeb iddynt dros arwain gwaith ar argymhellion. Dylai'r Pwyllgor Diwylliant fod yn gwthio'r mater trawsbynciol hwn yn ei flaen.

Cynigiwyd materion eraill i'w hystyried gan y Pwyllgor:

- Sefydlu'r Fforwm Iaith a'i berthynas â'r Pwyllgor.
- Ystyried darpariaeth y celfyddydau a diwylliant yn y gymuned, o fewn ysgolion a chlybiau pobl ifanc.
- Dosbarthiad rhanbarthol adnoddau yng Nghymru gan gyfeirio'n arbennig at y £2 filiwn ychwanegol a glustnodwyd ar gyfer 2004/05.
- Cymorth i Stadiwm y Mileniwm ac ystyriaeth o'i swyddogaeth o ran hyrwyddo Cymru drwy'r byd.
- Adolygiad Pum Mlynedd o Gyngor Chwaraeon Cymru.

- Adolygiad Pum Mlynedd o Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
- Archwiliad o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.
- Effaith adolygiad Llywodraeth y DU o'r Loteri.
- Ystyried cyfraniad y celfyddydau a diwylliant at ddatblygiad economaidd a chymunedol yng Nghymru. Cynigiwyd trafod â'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a'r sefydliad Celfyddydau a Busnes.
- Trafodaethau pellach â Chywaith Cymru ynglŷn â'u dyheadau, gan gofio am ddi-ddordebau (Sue Essex).
- Trafodaeth ag Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru ynghylch Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a phosibilrwydd creu Fforwm Celfyddydau Diwydiannol.

Yn olaf, cytunwyd i ofyn i'r Ganolfan Ymchwil i Lên ac Iaith Saesneg Cymru (CREW) am fanylion pellach am eu cynnig y dylai'r Pwyllgor ystyried iaith a diwylliant Saesneg Cymru.

### **Eitem 3: Cyflwyniad gan Gyngor Llyfrau Cymru - Papur 14-02 (p1)**

Cyflwynwyr: Gwerfyl Pierce Jones, Cyfarwyddwr

Dr Lionel Madden, Cadeirydd

Defnyddiodd y Cadeirydd y cyfle i gofnodi gwerthfawrogiad y Pwyllgor o gyfraniad Eirian Dyer a'r Uned Gyfieithu tuag at gynhyrchu'r fersiwn Cymraeg o 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol'.

Wrth gyflwyno papur y Cyngor, dywedodd ei Gadeirydd fod datblygiadau pwysig wedi digwydd yn ystod y flwyddyn er pan ymddangosodd ddiwethaf gerbron y Pwyllgor. Mynegodd ef a'r Cyfarwyddwr hithau eiriau cynnes o werthfawrogiad o gadeiryddiaeth Delyth Evans o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyhoeddi, ac o benderfyniad y Gweinidog i gyfnerthu cyllid craidd i'r Cyngor yn uniongyrchol oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol o Ebrill 2002.

Teimlai'r Cyfarwyddwr fod nifer o argymhellion allweddol yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen:

- Cyhoeddwyr i fod â mwy o ryddid o ran dyfarnu grantiau.
- Cryfhau seilwaith y prif dai cyhoeddi.
- Yr angen am adnoddau ychwanegol i awduron.
- Yr angen am adnoddau ychwanegol ar gyfer marchnata.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod angen strategaethau marchnata mynych ar gyfer pob dosbarth yn y diwydiant. Dywedodd hefyd fod yr argymhelliad yn adroddiad Cyngor Celfyddydau Cymru, 'Ariannu Llenyddiaeth: Adolygiad Strwythurol', sef y dylid trosglwyddo cyfrifoldeb dros lenyddiaeth o'r Cyngor Celfyddydau i Gyngor Llyfrau Cymru a'r Academi yn cynnig cyfle i ddatblygu'r diwydiant cyhoeddi yn gyfan ac mewn ffordd drefnus a strategol. Roedd Pwyllgor

Gwaith y Cyngor wedi cytuno â'r cynigion.

Mynegwyd y sylwadau hyn yn ogystal gan y Cyfarwyddwr:

- Roedd y Cyngor wedi comisiynu adroddiadau allweddol ar ddyfodol canolfannau dosbarthu a phosibiliadau TGCh mewn marchnata a dosbarthu.
- Roeddent yn ymwybodol o bwysigrwydd gwerthiant llyfrau dramor ac yn datblygu papur cefndir ar y pwnc. Roedd awgrymiadau eisoes wedi eu gwneud ynglŷn â swyddfa werthiant dramor.
- Roedd gwefan Gwalia.com yn llwyddiant â thros 600 o adolygiadau wedi eu cyfrannu arno dros y flwyddyn a aethai heibio. Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi nodi bod cwsmeriaid yn ei chael yn drafferthus archebu llyfrau trwy siopau llyfrau yn hytrach nag yn uniongyrchol o'r wefan. Roedd hynny'n ennyn gwrthwynebiad gan siopau llyfrau llai a deimlai y gallent gael eu tanseilio petai gwerthiant yn trosglwyddo i'r rhyngwyd.
- Bu'r Cyngor Llyfrau yn chwilio am fannau gwerthu newydd. Maent wedi dod i gytundeb â Tesco, sydd bellach yn cadw llyfrau Cymraeg.
- Mae'n bosibl bod y canolbwyntio ar werthiant wedi tynnu sylw oddi ar y gwaith hirdymor o hyrwyddo diddordeb mewn darllen. Bu'r Flwyddyn Ddarllen Genedlaethol yn 1998-99 yn llwyddiant. Ers hynny, mae Adran Addysg y Cynulliad wedi ariannu Diwrnod Cenedlaethol y Llyfr sy'n cynnwys nifer o bartneriaid o'r sectorau gwirfoddol a phreifat. Bydd y Cyngor yn edrych i weld sut y gellir datblygu hyn yn y dyfodol.

Gwnaed y pwyntiau canlynol wrth drafod:

Mae marchnata ar lein yn bwysig iawn. Mae adroddiad rights.com yn pwysleisio pwysigrwydd partneriaethau â chyfanwerthwyr wrth werthu ar y rhyngwyd. Rhaid diweddarau'r wybodaeth sydd ar gael yn gyson, yn enwedig ar wefannau allweddol fel Whittackers.

Mae'r farchnad ar gyfer llyfrau Cymraeg mor fach - llai na 1100 - fel nad yw'r awduron yn aml yn gwneud elw o gwbl. Golyga hyn yn aml na chynhyrchir digon o lyfrau i ddiwallu anghenion y farchnad.

Dylai fod gan gyhoeddwyr fwy o annibyniaeth wrth benderfynu pa lyfrau i'w cynhyrchu. Ni fydd y panel o ddarllenwyr i gloriannu llyfrau a ariennir gan y Cyngor yn parhau.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn edrych ar y diwydiant cyhoeddi fel cyfrwng i ddarparu llenyddiaeth yn Gymraeg, yn hytrach na diwydiant. Rhaid edrych ar y diwydiant cyhoeddi o safbwynt datblygiad economaidd.

Caiff llawer o lyfrau Cymraeg eu cyfieithu i'r Saesneg. Mae gan y Cyngor Llyfrau swyddog neilltuol ar gyfer hyrwyddo llyfrau Eingl-Gymreig.

Roedd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi canfod bod problem ynghylch diwallu'r galw am lyfrau Cymraeg. O hyn allan byddai adroddiad ar y farchnad bob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae galw mawr am lyfrau plant a llyfrau i ddysgwyr. Mae gan y Cyngor gynlluniau i feithrin diddordeb yn y tymor hwy mewn darllen, megis yr ymgyrch Taro Deg. Mae'r Cyngor yn cytuno fod lle i gydweithio â'r papurau bro.

#### **Eitem 4: Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gyhoeddi**

Trafododd yr aelodau y rhyngweithio rhwng grwpiau Gorchwyl a Gorffen Gweinidogion a Phwyllgorau. Er i'r mater gael ei godi yng nghyd-destun y grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyhoeddi, lle nad oedd yr adroddiad terfynol wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor, yr egwyddor gyffredinol yr oedd yr Aelodau am ei thrafod, yn hytrach na'r grŵp penodol hwnnw.

Teimlai'r Aelodau os oedd grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystyried materion o bwys i Bwyllgor y dylai ei adroddiad gael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwnnw. Teimlai'r aelodau fod eu swyddogaeth graffu yn cyfiawnhau hynny. Roedd teimlad hefyd y dylai'r broses a amgylchynai'r grwpiau hyn fod yn fwy agored a thryloyw.

Dywedodd y Gweinidog fod sawl ffordd o fwydo penderfyniadau, a bod y ffordd hon yn fwy cost-efeithiol na llogi ymgynghorwyr. Roedd penderfyniad y Gweinidog wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar 17 Ebrill 2002 ac roedd y Pwyllgor wedi derbyn copïau o'r adroddiad.

Cytunodd y Cadeirydd i dynnu sylw'r Pwyllgor Busnes a Phanel y Cadeiryddion at y mater.

#### **Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod diwethaf - Papurau CC 12-02 (min) a CC 13-02 (min)**

Cadarnhawyd y cofnodion ag un newid:

Ym mhapur CC 13-02 (min), yn lle 'fel y gallai fod yn ddarparwr uniongyrchol' rhoi 'bydd adnoddau'n cael eu sianelu trwy eraill fel Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, Awdurdodau Lleol ac yn uniongyrchol'.

#### **Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 2002**